

LLAWLYFR MODWL

Cod y Modwl: ECAD5004C

Teitl y Modwl:
Addysgu Iaith a Mathemateg

BA ADDYSG GYNRADD
gyda Statws Athro Cymwysedig

LEFEL 5

CYFADRAN ADDYSG A CHYMUNEDAU

2017-2018

1. Manylion Cysylltu

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl arnoch, cysylltwch â:

rachel.wallis@uwtsd.ac.uk

l.davies@uwtsd.ac.uk

2. Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen ac rydym yma i'ch helpu.

Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu a chymryd rhan mewn sesiynau
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn (29ain Mawrth 2018)
- Ymroi a chymryd rhan ymhob sesiwn

Darllenwch Reoliadau'r Brifysgol i Fyfyrwyr.

AMCAN(ION)

- Darparu cyfleoedd sy'n ehangu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ar gyfer addysgu a dysgu iaith a Mathemateg yng nghwricwlwm yr ysgol gynradd.
- Darparu trosolwg beirniadol o ddisgwyliadau yn gysylltiedig ag oedran ac ymagweddau addysgol ar gyfer dysgu iaith a Mathemateg.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

1. roi tystiolaeth o wybodaeth gadarn o ddisgwyliadau cenedlaethol yn gysylltiedig ag oedran mewn iaith a mathemateg;
2. arddangos dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r modd mae plant yn dysgu sgiliau iaith a mathemateg effeithiol;
3. arddangos gallu datblygol o ran sut i wneud dewisiadau addysgol sy'n sicrhau dysgu ac addysgu da;
4. trefnu eu gwybodaeth a'r hyn y maent wedi'i ddysgu drwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, a chyflwyno'u gwaith ar y lefel briodol.

4. Darllen cefndirol/ tasgau hanfodol

Rhoddir tasgau cyn ac ôl-sesiwn (y gellir eu defnyddio ar gyfer ffeiliau llythrennedd personol neu ffeiliau rhifedd personol) fel y bo'n briodol yn ystod sesiynau'r modwl neu trwy Moodle.

5. Crynodeb o'r modwl

Gall trefn y sesiynau hyn newid yn ôl yr amgylchiadau a gall sesiynau gwmpasu'r un themâu.

Mae'r modwl hwn yn adeiladu ar fodwl ITLM4002C, ac mae'r strwythur yn debyg. Yn y modwl hwn mae dau llyn gwahanol:

- Iaith
- Mathemateg

Er y gellir meddwl am y rhain fel pynciau gwahanol, byddwn yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Sesiynau iaith a Llythrennedd

1	Llawlyfr Modwl Llafaredd (1)	S1.3, S1.7, S1.8, S2.1, S2.2, S3.1 S3.3.2
2	Addysgu Barddoniaeth Llafaredd (2)	S1.3, S1.7, S1.8, S2.1, S2.2, S3.1 S3.3.2
3	Darllen am ystyr (Darllen dan Arweiniad) Darllen a Deall (Profion Darllen Cenedlaethol)	S1.3, S1.7, S1.8, S2.1, S2.2, S3.1 S3.3.2, S3.3.3
4	Ysgrifennu ar y Cyd: Sillafu ac Atalnodi	S1.3, S1.7, S1.8, S2.1, S2.2, S3.1 S3.3.2, S3.3.3
PAP Rhan 1		
5	Model ar gyfer addysgu ysgrifennu creadigol e.e. Ysgrifennu ar y Cyd & 'Dweud Stori i Greu Stori' (Pie Corbett)	S1.3, S1.7, S1.8, S2.1, S2.2, S3.1 S3.3.2
6	Model ar gyfer addysgu ysgrifennu anllenyddol (ffeithiol) e.e. Sgerbydau Sue Palmer & Geirio Gwych	S1.3, S1.7, S1.8, S2.1, S2.2, S3.1 S3.3.2
7	Asesu Ffurfiannol	S1.3, S1.7, S1.8, S2.1, S2.2, S3.1 S3.3.2

8	Deall disgyblion fel dysgwyr iaith	S1.3, S1.7, S1.8, S2.1, S2.2, S2.3, S2.6, S3.1 S3.2.1, S3.3.2 S3.3.4, S3.3.6 S3.3.12
9	Cefnogaeth Priodol i'r Aseiniad	
Cyflwyno Aseiniad: 29/3/2018		

English Language Sessions	Topic
1	Using children's literature in the classroom (1)
2	Using children's literature in the classroom (2)
3	Spelling
4	Assessment for learning in English
5	Assessment and national tests

Sesiynau Mathemateg a Rhifedd

1	Addysgeg Effeithiol: Targedu meysydd lletchwith (amser; ffracsiynau; degolion, canrannau; patrymau; dilyniannu; algebra)	S2.1 S2.2 S2.7 S3.1.3
2	Addysgeg Effeithiol: Datblygu rhesymu rhifiadol	S2.1 S2.2 S2.7 S3.1.3 S3.2.1 S3.2.4 S3.3.4
3	Addysgeg Effeithiol: Datblygiad mewn geometreg	S2.1 S2.2 S2.5 S2.7 S3.1.3
4	Addysgeg Effeithiol: Cefnogi pob dysgwr mewn mathemateg: edrych ar strategaethau ac egwyddorion gwahaniaethu mewn mathemateg.	S2.1 S2.2 S2.7 S3.1.3 S3.2.1 S3.2.4 S3.3.4
PAP Rhan 1		
5	Addysgeg Effeithiol: Defnyddio arsylwadau a data i hysbysu addysgeg fathemategol	S2.1 S1.1 S2.4
6	Addysgeg Effeithiol: Sicrhau datblygiad mewn mathemateg	S2.1 S2.2 S2.5 S2.7 S3.1.3
7	Addysgeg Effeithiol: Camsyniadau mathemategol: edrych ar strategaethau ac egwyddorion sy'n ymwneud â sicrhau dealltwriaeth effeithiol drwy ddeall camsyniadau posib	S2.1 S2.2 S2.5 S2.7 S3.1.3
8	Addysgeg Effeithiol: Datblygu meddwl hyblyg mewn mathemateg: edrych ar egwyddorion a strategaethau ar gyfer datblygu hyblygrwydd a hyfedredd	S2.1 S2.2 S2.5 S2.7 S3.1.3
9	Cefnogaeth Aseiniad Priodol	
Cyflwyno Aseiniad 29/3/2018		

6. Tasgau ac arweiniad asesu

COD Y MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
ITLM5003C	Addysgu iaith a Mathemateg	Gwaith Cwrs gyda phwysiad o 100% Dyddiad cyflwyno: 29ain Mawrth 2018

Teitl yr Aseiniad: Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg? Dadansoddiad o sut mae plentyn yn dysgu iaith a mathemateg gydag argymhellion ar gyfer sicrhau cynnydd.

Aseiniad Ysgrifenedig: 3,500 o eiriau gyda chyfwerth o 1,500 o eiriau ar gyfer yr atodiadau.

Arweiniad i'r Aseiniad. Yn ystod PAP, gofynnir i chi gasglu data gan ddefnyddio agweddau o'r 'Dull Mosäig'. Dylai'r data hwn, sy'n gysylltiedig ag **un dysgwr mewn un cyfnod allweddol yn unig**, gefnogi'r ymateb i'r cwestiwn: 'Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg?'

Mae'n angenrheidiol bod y data yn cynnwys:

- Arsylwi
- Gwneud mapiau
- Ffotograffau
- Cyfweiliad gyda naill ai'r dysgwr neu athro'r dysgwr
- Samplau o waith.

Gellir defnyddio'r data hwn i ddadansoddi sut mae plentyn yn dysgu iaith a mathemateg. Dylid cefnogi'r dadansoddi drwy gyfeirio at ddarllen.

Gweler y canllaw asesu (atodiadau) am ragor o wybodaeth ar asesu'r modwl hwn.

7. Cyfeirnodau

Hefyd efallai bydd yn ddefnyddiol edrych ar y rhestr cyfeirnodau ar gyfer ITLM4001C.

Hanfodol

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, ar gael yma:

<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130415-Inf-guidance-cy.pdf>

Canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm, ar gael yma:

<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130124curriculumplanningguidancecy.pdf>

Clark, A. and Moss, P. (2011) *Listening to Young Children: The Mosaic Approach* (2nd ed.) National Children's Bureau

Graham, J. and Kelly, A. (2007, third edition) *Reading Under Control: Teaching Reading in the Primary School*

Graham, J. and Kelly, A. (2007, third edition) *Writing Under Control: Teaching Reading in the Primary School*

Hanson, A. (ed.) (2011) *Children's Errors in Mathematics: Understanding Common Misconceptions in the Primary School*, Llundain: Sage

Lewis, M. and Ellis, S. (2006) *Phonics: Practice, Research and Policy* Paul Chapman Publishing

Nottingham, J. (2013) *Encouraging Learning* Llundain: Routledge:

Pound, L. and Lee, T. (2010) *Teaching Mathematics Creatively*, Oxon: Routledge

Argymhellir

Askew, M. (2011) *Transforming Primary Mathematics* Oxon: Routledge

Corbett, P. (2007) *Speak out! Ages 9-11. Great Ideas for Speaking and Listening Activities*. Llundain: A&C Black.

Cotton, T. (2013) *Understanding and Teaching Primary Mathematics*, Oxon: Routledge

Goodwin, P. (2010) *The Literate Classroom*, Llundain: David Fulton.

Grigg R. (2010) *Becoming an Outstanding Primary School Teacher*, Harlow: Pearson.

Hopwood, M. a Defis, N. (gol.) (2017) *Llawlyfr Darpar-Athrawon Cymru*. Caerfyrddin: Yr Athrofa. [llawlyfr mewnl]

Siencyn, S.W. (gol.) (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008) *Addysgeg Dysgu ac Addysgu*. Caerdydd: Cyhoeddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Meggitt, C. (2006). *Datblygiad Plant arweinyfr darluniadol* (2il arg.). Caerdydd: Gwasg UWIC Press

Cefndir

Carruthers, E. (2006) *Children's Mathematics Making Marks Making Meaning*. 2nd edn. Llundain: Paul Chapman Publishing.
Connor, K. (2000) *Mini Maths 1*, Beam Education.
Cremin, T. (2009) *Teaching English Creatively (Primary Teaching Guides)*, Oxon: Routledge.
Dawes, L. (2011) *Creating a Speaking and Listening Classroom: Integrating Talk for Learning at Key Stage 2*, Oxon: Routledge.
English, R. (2006) *Maths and ICT in the Primary School (A Creative Approach)*, Llundain: David Fulton Publishers.
Grugeon, E., Dawes, L., Smith, C. and Hubbard L. (2005) *Teaching Speaking and Listening in the Primary Classroom*. 3rd edn. Llundain: David Fulton Publishers.
Hansen, A. (ed) (2005) *Children's Errors in Mathematics* www.learningmatters.co.uk.
Suggate et al. (2006) *Mathematical Knowledge for Primary Teachers*, Llundain: David Fulton.

Cylchgronau

Child Education
Early Years Education
Infant Project
Primary Mathematics
TES
The Primary English Magazine

Gwefannau

Dysgu Cymru: <http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?lang=cy>

Literacy Trust - www.literacytrust.org.uk

National Centre for Excellence in Teaching Mathematics – www.ncetm.org.uk

Nrichmaths-<http://nrich.maths.org.uk/>

Ar gyfer unrhyw ymholiadau penodol ynglŷn ag aseiniadau, cysylltwch â:
Rachel Wallis, rachel.wallis@uwtsd.ac.uk

Teitl yr Aseiniad: Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg? Dadansoddiad o sut mae plentyn yn dysgu iaith a mathemateg ac iaith gydag argymhellion ar sut i sicrhau cynnydd.

Aseiniad Ysgrifenedig: 3, 500 o eiriau – Mae hwn yn cynnwys yr holl destun, tablau ayyb a ddaw ar ôl y teitl hyd at (ond heb gynnwys) y rhestr gyfeirnod.

Atodiadau cywerth â 1, 500 o eiriau – ni chaiff y geiriau sydd yn eich atodiadau eu cyfrif, ond caiff y gwaith a gafodd ei wneud ar gyfer casglu'r atodiadau at ei gilydd eu hystyried cywerth ag 1, 500 o eiriau ysgrifenedig.

Y Dull Mosaig


Datblygwyd y 'dull mosaig' gan Clark a Moss fel ffordd o ddod o hyd i safbwyntiau pobl ifanc (gweler Clark a Moss, 2011 am fanylion pellach). Cafodd y dull mosaig ei ddylunio i'w ddefnyddio gyda phlant ifanc iawn, ond gellir ei addasu a'i ddefnyddio gyda phlant hŷn hefyd.

Y prif syniad sydd y tu ôl i'r dull mosaig yw bod nifer o ffynonellau yn cael eu defnyddio **gan y plentyn** i gasglu safbwyntiau: yna, gellir eu defnyddio mewn ffordd gydweithredol gyda'r plentyn er mwyn darganfod beth yw barn y plentyn.

Yn yr aseiniad hwn, ni fyddwch yn defnyddio pob agwedd o'r dull mosaig, ond gofynnir i chi ddefnyddio rhai agweddau o'r dull hwn er mwyn helpu archwilio'r cwestiwn 'Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg?'

Darllen sy'n ymwneud â'r dull mosaig:

Clark, A. and Moss, P. (2011) *Listening to Young Children: The Mosaic Approach* (2nd ed.) National Children's Bureau



Mae'r llyfr hwn ar gael
mewn ffurf e-lyfr yn y
llyfrgell

Moss, P. (2006) Listening to Young Children: Beyond Rights to Ethics in *Let's Talk about Listening to Children* Learning and Teaching Scotland: ar gael ar:
http://www.educationscotland.gov.uk/Images/listeningtochildren_tcm4-324433.pdf

<http://www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/cymraeg/meithrin/cymerwch-ran/yr-agwedd-mosaic/>

(ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, gweler isod)

<http://www.pupilvoicewales.org.uk/nursery/get-involved/mosaic-approach/>

Beth i wneud ar PAP

Yn ystod PAP (ym mha bynnag gyfnod allweddol sydd fwyaf addas), gofynnir i chi nodi **un dysgwr** sydd yn eich dosbarth PAP. Argymhellir bod y dysgwr hwnnw yn cael ei ystyried yn un sy'n dangos cyrhaeddiad canolig o fewn y dosbarth. Dylech ymgynghori â'ch athro dosbarth gan ofyn iddo ddarllen a llofnodi'r llythyr cysylltiedig (gweler tud.19/20). Bydd angen gofyn i'r dysgwr hefyd a oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'ch helpu gyda pheth gwaith y brifysgol a dylech esbonio iddo yr hoffech ddarganfod beth sy'n ei helpu i ddysgu iaith a mathemateg (efallai bydd yn rhaid i chi esbonio hwn mewn geiriau y mae plentyn yn eu deall).

Mae'n holl bwysig eich bod yn dilyn gweithdrefnau moesegol wrth weithio gyda phlant. Yn enwedig, **bydd yn rhaid i chi:**

1. Ofyn am ganiatâd y plentyn i gymryd rhan gan sicrhau bod ffordd o 'dynnu'n ôl' e.e. 'A fyddai gwahaniaeth gyda chi fy helpu dros yr ychydig wythnosau nesaf drwy ateb cwestiynau a gwneud ambell dasg a fydd yn fy helpu gyda'r gwaith sydd gennyf ar gyfer y brifysgol. Gallwn stopio unrhyw bryd, ac os nad ydych am gymryd rhan, mae hynny'n iawn hefyd'.
2. Sicrhewch nad yw cymryd rhan mewn unrhyw agwedd o'r gwaith hwn yn niweidiol i'r plentyn (e.e. mae ef/hi yn colli cyfle i wneud rhywbeth mae ef/hi am ei wneud).
3. Sicrhewch eich bod yn gadael i'r plentyn arwain ac os mae'n ymddangos bod diffyg diddordeb neu frwdfrydedd, peidiwch â rhoi pwysau arno/arni i gymryd rhan.

Yn ystod y lleoliad PAP, bydd gofyn i chi gasglu data am y dysgwr hwn. Dylai'r data eich helpu i ddeall ymateb y plentyn i'r cwestiwn: 'Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg?'

Mae angen bod y data yn cynnwys:

- Arsylwi;
- Gwneud mapiau;
- Ffotograffau;
- Cyfweld â naill ai'r dysgwr neu ei athro.
- Enghreifftiau o'r gwaith a wnaed.

Arsylwi

Dylech geisio arsylwi ar y plentyn yn dysgu mewn amrywiol cyd-destunau lle gallai ef/hi fod yn defnyddio iaith a mathemateg. Yna, gellir cynnwys nodiadau arsylwi fel atodiad.

Gallwch gynnal yr arsylwi pan fyddwch yn addysgu neu beidio, er byddai rhaid nodi unrhyw arsylwadau a wnaed ar ôl y wers (e.e. mewn llyfr arsylwi). Nid oes rhaid i'r arsylwadau ymwneud yn benodol â gwers fathemateg neu wers iaith, ond dylai'r arsylwadau yr ydych yn eu cynnwys yn eich atodiad ymwneud ag iaith neu lythrennedd a mathemateg neu rifedd. Er enghraifft, o fewn y Cyfnod Sylfaen, efallai yr hoffech gynnwys nodiadau arsylwi sydd wedi'u seilio ar arsylwi ar y plentyn yn ardal chwarae rôl yr ystafell ddosbarth, neu yn ystod Cyfnod Allweddol 2, efallai y gallech gynnwys nodiadau arsylwi sy'n ymwneud â gwers wyddoniaeth lle mae'r plentyn yn defnyddio rhifedd.

Nid oes rhaid i chi gynnwys pob arsylwad yr ydych wedi ei wneud; dim ond yr arsylwadau hynny sy'n ymwneud â'r drafodaeth.

Gellir dod o hyd i gyfarwyddyd arsylwi ar blant yma:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/observing-children/?skip=1&lang=cy>

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140828-observing-children-en.pdf>

Sylwer, er bod y ddogfen yn cyfeirio at y Cyfnod Sylfaen, mae'r cyfarwyddyd yr un mor berthnasol wrth arsylwi ar blant yng Nghyfnod Allweddol 2.

Gwneud Mapiau

Term a gaiff ei ddefnyddio yng nghyd-destun y dull mosaig yw'r term 'gwneud mapiau', ond nid yw'n cyfeirio at greu map daearyddol – yn hytrach mae'n ymwneud â nodi mannau pwysig. Ar gyfer yr aseiniad hwn, mae'r agwedd gwneud mapiau yn ymwneud â'r gallu i adnabod (gyda help y plentyn) mannau pwysig sy'n gysylltiedig â'r dasg o ddysgu iaith a mathemateg. Er enghraifft, gallech:

- Ofyn i'r plentyn i fynd â chi i fannau yn yr ysgol lle mae'n dysgu (neu yn defnyddio) iaith neu fathemateg.

- Ofyn i'r plentyn i dynnu llun /ddangos rhannau o'r ystafell ddosbarth lle mae'n hoffi dysgu iaith/mathemateg.

- Arsylwi ar blentyn mewn mannau gwahanol gan nodi lle caiff iaith/mathemateg eu defnyddio.

Mae'r enghreifftiau uchod (a sut cânt eu gweithredu) yn dibynnu ar y lleoliad ac ar oedran y plant yr ydych yn gweithio â hwy; defnyddiwch eich barn broffesiynol wrth benderfynu ar sut i weithredu'r agwedd hon.

Ffotograffau

Mae defnyddio ffotograffau fel agwedd o'r dull mosaig yn galluogi plentyn i ddweud pethau pwysig wrthyh. Dylai'r lluniau sy'n ymddangos yn yr atodiad fod wedi cael eu tynnu gan y plentyn a dylai unrhyw ffotograffau gael eu tynnu a'u defnyddio yn unol â pholisi'r ysgol. Yng nghyd-destun yr aseiniad hwn, gallech ofyn i'r dysgwr i dynnu ffotograffau o'r pethau hynny sy'n ei helpu i ddysgu iaith a mathemateg.

Cyfweliad gyda naill ai'r dysgwr neu athro'r dysgwr

Byddai cyfweiliad anffurfiol gyda'r dysgwr yn eich galluogi i ddefnyddio'r data a gasglwyd (e.e. a ddaw o wneud mapiau a ffotograffau) er mwyn archwilio a deall safbwynt y plentyn. Wrth wneud hyn, dylech geisio sicrhau nad ydych yn mynegi barn ar yr hyn y mae'r plentyn yn ei rannu, ond eich bod wir yn ceisio canfod safbwyntiau'r plentyn ar yr hyn a gaiff ei drafod. Gallech ddefnyddio'r cyfle hefyd i ddod o hyd i farn plant ar iaith a mathemateg. Er enghraifft:

A oes yna bethau am ddarllen/ ysgrifennu/ llefaredd/ mathemateg 'rwyf ti'n eu mwynhau?

A wyt ti'n meddwl bod dysgu iaith/mathemateg yn bwysig? Pam?

Beth wyt ti'n ei wneud pan fydd angen help arnat mewn?

Pa rannau o fathemateg 'rwyf yn eu mwynhau fwyaf (e.e. siapau, rhif, mesur, trafod data ac ati)?

Pa rannau o iaith 'rwyf yn eu mwynhau fwyaf (e.e. darllen, ysgrifennu, siarad)?

Pan fyddwch yn cyfweild â phlant, mae'n hanfodol eich bod yn sensitif ac yn ymddwyn yn foesegol bob amser, gan sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n gyfforddus ac yn ymwybodol bod cymryd rhan yn opsiynol.

Cofiwch eich bod yn ceisio dod o hyd i safbwynt y plentyn ac nid rhoi'r plentyn ar brawf; ceisiwch ofyn cwestiynau sy'n gwestiynau 'penagored' ac sy'n eich galluogi i ddod o hyd i safbwynt y plentyn.

Gallech benderfynu rhoi cynnig ar ddull 'creadigol' er mwyn dod o hyd i safbwyntiau'r plentyn ar iaith a mathemateg. Er enghraifft:

Tynna lun ohonot ti dy hun yn dysgu mathemateg / iaith – yn dy lun, ceisia ddangos i mi sut 'rwyf yn teimlo, a'r pethau hynny 'rwyf yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi.

Neu:

Dyma rai lluniau o bobl sydd â theimladau gwahanol. P'un o'r lluniau hyn sy'n dangos sut 'rwyf fel arfer yn teimlo pan fyddi di'n:

Ysgrifennu

Darllen

Siarad

Gwranddo

Gweithio gyda rhifau

Gweithio gyda siapau?

Gallai fod o help pe baech yn trafod y dysgwr gyda'r athro dosbarth: gellir gwneud hyn yn lle neu yn ogystal â chyfweiliad gyda'r plentyn.

Samplau o waith

Drwy gydol PAP, dylech gasglu samplau o waith iaith a mathemateg y dysgwr. Nid oes rhaid i chi gasglu popeth y mae'r plentyn yn ei wneud o ran iaith a mathemateg, ond canolbwyntiwch yn benodol ar gasglu samplau o waith sy'n dweud rhywbeth wrthyh am sut mae'r plentyn wedi dysgu iaith a mathemateg.

Ar bob sampl, nodwch cyd-destun y gwaith yn gryno (e.e. amcan y dysgu / a gafodd y gwaith ei wneud gan unigolyn / grŵp / pâr ac a gafodd y plentyn unrhyw gymorth).

Caiff y samplau o waith a gasglwyd eu hystyried yn bellach pan fyddwch yn dychwelyd i'r brifysgol ar ôl PAP.

Ysgrifennu'r aseiniad

Teitl: **Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg? Dadansoddiad o sut mae plentyn yn dysgu iaith a mathemateg gydag argymhellion ar gyfer sicrhau cynnydd.**

3, 500 o eiriau.

Dadansoddiad o'r data y gwnaethoch eu casglu yn ystod PAP yw'r aseiniad ysgrifenedig.

Sicrhewch os gwelwch yn dda nad yw'r disgybl na'r ysgol dan sylw yn cael eu henwi o fewn yr aseiniad e.e. defnyddiwch ffugenwau. Dylid gorchuddio pob llun /enw/logo a allai ddatgelu'r disgybl neu'r ysgol. Y llythyr cadarnhau yn unig fydd yn cyfleu gwybodaeth am yr ysgol.

Strwythur yr Aseiniad

Sylwer os gwelwch yn dda y dylech ddefnyddio'r cyfarwyddyd canlynol i gynorthwyo (ond nid i gyfyngu) eich ysgrifennu.

Rhagymadrodd - tua 300 o eiriau

Yn y rhagymadrodd, dylech amlinellu diben yr aseiniad a'r hyn yr ydych yn bwriadu ei drafod.

Dylech gyflwyno cyd-destun yr aseiniad (heb enwi'r ysgol na'r plentyn).

Rhowch wybodaeth ffeithiol gryno (e.e. ysgol fawr / fach yn Ne Cymru). Mae'r disgybl sydd o dan sylw yn ferch blwydd oed ym mlwyddyn...

Amlinellwch yn gryno sut y casglwyd y data – gan ddangos eich bod yn deall yr angen i ymddwyn yn foesebol.

Dadansoddiad o'r dysgwr– tua 2, 000 o eiriau

Yn y rhan hon, dylech gasglu at data ynghyd er mwyn dadansoddi sut mae'r plentyn yn dysgu iaith (1, 000 o eiriau) a dysgu mathemateg (1, 000 o eiriau).

Gwnaiff dadansoddiad cadarn adnabod y pwyntiau allweddol, cefnogi'r pwyntiau hynny gan gyfeirio at dystiolaeth (h.y. y data a gasglwyd) a hefyd cysylltu pwyntiau perthnasol â darllen priodol.


O fewn eich dadansoddiad o'r dysgwr, dylech hefyd werthuso'r data 'rydych wedi'i gasglu.

Gallai fod yn ddefnyddiol pe baech yn strwythuro pob rhan gan ddefnyddio modelau dysgu. Gallai defnyddio model o'r fath eich cynorthwyo i ddadansoddi ac osgoi disgrifio'r data yn unig.

Er enghraifft:


Mae Nottingham (2013) yn trafod y model dysgu ASK:

Mae Nottingham, J. (2013) *Encouraging Learning* Oxon: Routledge ar gael yn y llyfrgell.



(daw'r llun o: <http://www.slideshare.net/jabulani4/develop-ask>)

Gweler addasiad Cymraeg isod:



Er enghraifft:

Agweddau – gallech ddadansoddi agwedd dysgwr (o ran iaith a mathemateg) ar sail tystiolaeth a gasglwyd wrth arsylwi/ cyfweld/ gwneud mapiau/ neu a ddaw o ffotograffau. Gallai hyn ystyried y pethau mae'r dysgwr yn eu hoffi a'u casáu / ei gymhelliant a'i ddyfalbarhad.

Sgiliau – gallech ddadansoddi sgiliau cymdeithasol/ sgiliau corfforol/ meddwl/ deallusol ‘ehangach’ a allai effeithio ar ddysgu iaith a mathemateg gan ddefnyddio tystiolaeth wedi’i seilio ar samplau o waith a

Gwybodaeth (a dealltwriaeth) – gallech ddadansoddi gwybodaeth ieithyddol a mathemategol y dysgwr gan ddefnyddio tystiolaeth a ddaw o samplau gwaith ac arsylwadau.

Cynnydd ar gyfer y Dyfodol– tua 1, 200 o eiriau

Yn y rhan hon, dylech amlinellu, gyda chymorth a ddaw drwy ddarllen, yr hyn y **byddech chi’n** ei wneud er mwyn sicrhau bod y plentyn yn gwneud cynnydd o ran iaith a mathemateg. Dylai’r rhan hon fod yn fwy na rhestr o feysydd addysgu ar gyfer y dyfodol yn unig – dylai fod yn berthnasol i’ch casgliadau gan ddangos eich gallu i adfyfrio ar eich addysgu. Gallai gynnwys elfennau, megis sut y gallech gefnogi’r dysgwr wrth iddo ddatblygu agwedd, sgiliau a gwybodaeth a fyddai’n cynorthwyo datblygiad pellach mewn iaith a mathemateg.

Dylid ystyried strategaethau addysgu cyffredinol (megis modelu/ sgaffaldio/ holi gwahaniaethu) yn y rhan hon.

Marcio’r aseiniad

Caiff yr aseiniad hwn ei farcio gan ddefnyddio meini prawf lefel 5 (sydd ar y dudalen nesaf). Wrth gyrraedd at farc cyffredinol, caiff y pedwar prif faes isod eu hystyried a bydd eich marc yn dibynnu ar i ba *raddau* yr ydych wedi diwallu pob un o’r rhain.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth Pwnc:

Gwnaiff aseiniad cadarn ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o’r materion allweddol parthed sut mae plant yn dysgu iaith a mathemateg a sut y gellid addysgu/dysgu iaith a mathemateg yn effeithiol. Byddai testunau priodol wedi cael eu defnyddio (ond ni fyddai hyn wedi cael ei adrodd na’i ddisgrifio) er mwyn cefnogi pwyntiau a dadansoddi. Gellir dangos gwybodaeth bynciol gadarn o addysgu a dysgu iaith a mathemateg yn y meysydd penodol a addysgir ar PAP drwy ymgysylltu â darllen yn y meysydd penodol hynny.

Sgiliau Deallusol:

Gwnaiff aseiniad cadarn drafod casgliadau mewn ffordd ddadansoddol drwy nodi pwyntiau allweddol, ac fe fydd cymorth ar gael ar gyfer hyn gan gyfeirio at dystiolaeth briodol (yn yr atodiad) neu ddarllen priodol. Ceir o fewn aseiniad cadarn gwerthusiad o’r dystiolaeth a gasglwyd gan adfyfrio ar yr hyn a gaiff ei drafod (e.e. drwy ystyried gwahanol esboniadau / safbwyntiau).

Cymwysiadau Addysgol a Phroffesiynol:

Bydd gan aseiniad cadarn gronfa dystiolaeth gadarn (yn yr atodiadau) y gellid ei defnyddio – oherwydd bydd ymgysylltu’n dda â’r dasg PAP yn sicrhau data cadarn.

Gwnaiff aseiniad cadarn ddangos, drwy drafod sicrhau cynnydd ar gyfer y dyfodol, dealltwriaeth dda o sgiliau addysgol priodol. Ceir hefyd ynddo adfyfrio ar yr hyn y mae'r data yn dangos am eich addysgu, ac fe fydd tystiolaeth eich bod wedi dilyn canllawiau moesegol.

Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol:

Caiff aseiniad cadarn ei gyflwyno'n dda (yn unol â'r canllawiau cyffredinol ar gyfer aseiniadau rhaglen) ac fe fydd y sillafu, gramadeg ac atalnodi sydd ynddo yn gywir. Bydd strwythur clir iddo, gan gynnwys yr atodiad. Bydd y canllawiau cyfeirnod (ar gael ar Moodle) wedi cael eu dilyn yn nhestun yr aseiniad ac yn y rhestr gyfeirnod.

	Lefel 5	Disgrifdyddion Meini Prawf Asesu ar gyfer BA Addysg Gynradd gyda SAC Mae'r fformat hwn yn pwysleisio natur gyfannol y dyfarniadau a wneir gan y marcwyr. Caiff y pwysiad meini prawf ei addasu ar gyfer pob modwl.					
		0-39 (M)	40-49 (LI)	50-59 (LI)	60-69 (LI)	70-79 (LI)	80-100 (LI)
		Gwael / Gwan M	Boddhaol 3 ^{ydd}	Da 2:2	Da iawn 2:1	Rhagorol 1 ^{af}	
M P A	Meini Prawf Asesu	Dealltwriaeth arwynebol, anhrefnus, anghyflawn a/neu wallus	Dangosir dealltwriaeth foddhaol o'r prif faterion	Dangosir dealltwriaeth dda gyda pheth dadansoddi	Dealltwriaeth dda iawn o egwyddorion sylfaenol a thystiolaeth berthnasol, gyda dadl gydlynol a rhesymegol	Ateb ystyriol yn seiliedig ar ddarllen ehangach, sy'n dangos eglurder meddwl a mewnwelediad personol	Ateb rhagorol, wedi'i ysgrifennu'n dda, a'i strwythuro a'i hysbysu 'n dda, gan ddangos mewnwelediad personol a gwreiddioldeb syfrdanol
	Deilliannau Dysgu'r Modwl yn cyfateb i:	0-11	12-14	15-17	18-20	21-23	24-30
G D P	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (Cysyniadol)	Camddealltwriaeth, camsyniadau neu gamddehongliadau sylfaenol a/ neu wybodaeth arwynebol mewn mannau	Gwybodaeth amlinellol o rai materion allweddol gyda thystiolaeth o ddealltwriaeth a chymhwysiad	Gwybodaeth amlwg o rai materion allweddol a goblygiadau ehangach	Gwybodaeth ehangach o'r rhan fwyaf o faterion, cysyniadau a dadleuon allweddol	Dealltwriaeth glir o'r materion allweddol dan sylw gyda thrafodaeth resymegol	Gwybodaeth ardderchog o faterion cysyniadau a dadleuon allweddol, wedi'i thrafod yn glir.
	(Darllen)	Peth llenyddiaeth / deunydd amhriodol, gydag amrediad darllen cyfyngedig a diffyg cywirdeb	Amrediad darllen boddhaol a ddaw o'r rhestr argymelledig a ffynonellau eraill	Amrediad darllen da a ddaw o'r rhestr argymelledig a ffynonellau eraill	Amrediad da iawn o ddeunydd darllen perthnasol a ddaw o amrywiaeth o ffynonellau y tu hwnt i'r rhestr argymelledig	Tystiolaeth o feddwl ystyriol iawn yn seiliedig ar amrediad darllen eang a ddaw o amrywiaeth o ffynonellau	Tystiolaeth glir o feddwl annibynnol a hysbysir gan amrediad darllen ardderchog a ddaw o amrywiaeth o ffynonellau
		0-11	12-14	15-17	18-20	21-23	24-30
S D	Sgiliau deallusol (Cyflwyno canfyddiadau/ dadanosddi)	Darganfyddiadau wedi'u cyflwyno o fewn fframwaith disgrifiadol anghyflawn gan dynnu ar nail ai ychydig o gasgliadau neu gasgliadau gwallus	Darganfyddiadau yn dechrau cael eu cyflwyno o fewn fframwaith datblygol gyda pheth dadansoddi a chasgliadau rhesymol	Cyflwynir y darganfyddiadau o fewn fframwaith gyda pheth dadansoddi a dehongli data gan ddod at gasgliadau rhesymol	Cyflwynir y darganfyddiadau o fewn fframwaith gyda pheth dadansoddi, dehongli a gwerthuso data, gan ddod at gasgliadau rhesymol	Cyflwynir y darganfyddiadau gyda pheth dadansoddi a chasgliadau a gyfiawnheir	Cyflwynir y darganfyddiadau o fewn fframwaith beirniadol a dadansoddol. Casgliadau ystyriol wedi'u seilio'n gadarn ar y dystiolaeth a gyflwynir
	(Gwerthuso beirniadol/ adfyfyriol)	Diffyg tystiolaeth o werthuso ac / neu o adfyfyrio beirniadol	Gwerthuso ac / neu adfyfyrio yn bresennol ond diffyg manylder	Ymgysylltu'n dda gyda gwerthuso ac adfyfyrio	Tystiolaeth dda iawn o ddechrau gwerthuso ac adfyfyrio'n feirniadol	Tystiolaeth o ymgysylltu yn ystyriol ac yn feirniadol gyda gwerthuso ac adfyfyrio	Ymgysylltu yn effeithiol ac yn fwy manwl gyda gwerthuso ac adfyfyrio
		0-11	12-14	15-17	18-20	21-23	24-30
C P P	Cymwysiadau Pedagogaid a Phroffesiynol (Cysylltu theori ag arfer)	Dealltwriaeth arwynebol neu ddiffyg dealltwriaeth o gyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol	Yn cysylltu egwyddorion a chysyniadau â fframweithiau damcaniaethol gwaelodol a dulliau o ran y cyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol	Yn adnabod egwyddorion / cysyniadau, fframweithiau damcaniaethol gwaelodo, gan ddechrau cydnabod eu cryfderau a'u gwendidau o ran y cyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol	Tystiolaeth o ddefnydd ymchwil perthnasol neu ddatblygiadau er mwyn hysbysu gweithredoedd o ran y cyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol	Tystiolaeth glir o gyfuno damcaniaeth ag arfer o ran y cyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol	Cyfuno damcaniaeth ag arfer yn effeithiol o ran y cyd-destun(au) addysgol a phroffesiynol
	(Adfyfyrio proffesiynol)	Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o adfyfyrio	Mae adfyfyrio yn amlwg	Tystiolaeth o adfyfyrio da	Yn dechrau adfyfyrio'n feirniadol	Adfyfyrio beirniadol yn amlwg	Adfyfyrio beirniadol effeithiol, manwl a rhesymegol yn amlwg
	(Ymddygiad moesegol lle bo'n briodol)	Fawr ddim neu ddim ymwybyddiaeth o faterion moesegol	Yn ymwybodol o faterion moesegol	Yn ymwybodol o faterion moesegol ac yn gallu trafod y rhain mewn perthynas â chredau a gwerthoedd personol	Materion moesegol wedi'u trafod gan ddangos ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb personol a chodau ymddygiad proffesiynol	Materion moesegol wedi'u trafod yn glir yng nghyd-destun cyfrifoldeb personol a chodau ymddygiad proffesiynol	Wedi mynd i'r afael yn effeithiol â materion moesegol yn enwedig yng nghyd-destun cyfrifoldeb personol a chodau ymddygiad proffesiynol
		0-3	4	5	6	7	8-10
S A T	Sgiliau Allweddol/ Trosglwyddadwy (Cyflwyniad)	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn wan	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn foddhaol	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn dda	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn dda iawn	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn effeithiol	Cyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn rhagorol
	(Gramadeg, Sillafu ac Atalnodi)	Nifer o wallau sylfaenol o ran sillafu, atalnodi neu ramadeg	Rhai gwallau o ran sillafu, atalnodi neu ramadeg	Ychydig o wallau o ran sillafu, atalnodi neu ramadeg	Gwallau iaith ysgrifenedig yn brin iawn	Gwallau mân yn yr iaith ysgrifenedig	Dim gwallau iaith ysgrifenedig
	(Strwythur)	Strwythur gwan gydag arddull ysgrifennu aneglur mewn mannau	Strwythur boddhaol gydag arddull ysgrifennu cydlynol ar y cyfan	Strwythur da gydag arddull ysgrifennu cydlynol	Strwythur da iawn sy'n cefnogi'r darlennydd	Strwythur effeithiol sy'n cefnogi'r darlennydd	Arddull ysgrifennu gydlynol ac aeddfed dros ben sy'n ennyn holl ddiddordeb y darlennydd
	(Technegau cyfeirnod)	Ychydig neu ddim defnydd o brotocolau a chonfensiynau cyfeirnod Harvard	Defnydd boddhaol o brotocolau a chonfensiynau cyfeirnod Harvard	Defnydd da o brotocolau a chonfensiynau cyfeirnod Harvard	Defnydd cywir o system Harvard ar y cyfan gyda rhai ffynonellau eilaidd	Defnydd cywir o system Harvard gan gynnwys ffynonellau eilaidd	System Harvard wedi'i defnyddio yn gywir, yn gyson ac yn effeithiol gyda phob ffynhonnell

Parthed: BA Add. (gyda SAC) PAP Blwyddyn 2 , caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer aseiniad ECAD5004C.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor,

Ar gyfer y modwl prifysgol ECAD5004C: Addysgu Iaith a Mathemateg, gofynnir i fyfyrwyr adnabod un dysgwr ‘canolig’ ei gyrhaeddiad sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli ar gyfer PAP, ac ymchwilio i’r hyn sy’n helpu disgybl i ddysgu iaith a mathemateg. Gallai’r archwilio olygu:

- arsylwi;
- gofyn i’r dysgwr nodi mannau/ pethau sy’n ei helpu ef/ hi i ddysgu iaith a mathemateg;
- trafod gyda’r disgybl a/ neu’r athro yr hyn sy’n helpu’r disgybl i ddysgu iaith/ mathemateg a sut mae’n teimlo am y meysydd hynny;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am ddysgu iaith a /neu fathemateg y dysgwr.

Dylai ymgymryd â’r gwaith hwn gynorthwyo myfyrwyr wrth iddynt geisio deall sut mae plant yn dysgu iaith a mathemateg, a sut gallant ddatblygu eu dulliau addysgu er mwyn sicrhau dysgu effeithiol o ran y meysydd hyn. Disgwylir i fyfyrwyr fod yn annibynnol wrth iddynt ymgymryd â’r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol caeth i’w dilyn, er ein bod ni’n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer nodweddiadol yr ystafell ddosbarth. Gofynnwyd i’r myfyrwyr i beidio â datgelu enwau’r dysgwr na’r ysgol yn eu haseiniadau.

Gofynnir i fyfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â’r athro dosbarth a’r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau archwilio wedi cael eu cynnal.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch â:
rachel.wallis@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw,

Tîm Modwl ECAD5004C
Rachel Wallis
Sarah Elsey
Linda Davies
Nerys Defis
Jayne Morgan